# Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol yr Ysbytai

## Gwybodaeth i gleifion a pherthnasau

| | |
|---|---|
| **Rydych chi wedi cael eich gweld gan:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Beth yw gofal lliniarol?

Mae gofal lliniarol yn cefnogi cleifion sydd ag afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd pan efallai na fydd triniaethau'n gallu darparu iachâd. Mae'n canolbwyntio ar geisio sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer cleifion, gan roi cefnogaeth i'r bobl sy'n bwysig iddynt, rheoli poen a symptomau eraill, a darparu gofal a chefnogaeth holistaidd. Gall atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol ym maes gofal lliniarol, a gofal ganddynt, ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod salwch.

## Pwy ydym ni

Mae Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai'n gweithio yn yr holl feysydd clinigol ar draws ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae ein swyddfeydd wedi'u lleoli ar draws y gwahanol ysbytai, yn cynnwys Tŷ Olwen.

Mae Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol yr Ysbytai'n cynnwys:

- Ymgynghorwyr meddygaeth liniarol

# Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai

- Metron gofal lliniarol
- Meddygon meddygaeth liniarol
- Nyrsys clinigol arbenigol
- Personél gweinyddol

Fel claf mewnol, bydd y rhan fwyaf o'ch gofal yn cael ei roi gan y nyrsys, y meddygon a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ar y ward. Mae Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai'n gweithio ochr yn ochr â thîm y ward i roi cyngor a chefnogaeth arbenigol i chi, eich teulu a'r gweithwyr gofal iechyd sy'n ymwneud â'ch gofal.

## Rydym yn anelu i:

- Ddarparu cyngor am sut i reoli poen a symptomau corfforol eraill (er enghraifft, salwch neu ddiffyg anadl)
- Cynnig cefnogaeth emosiynol
- Rhoi amser a chyfleoedd i chi ofyn cwestiynau a thrafod pryderon am eich anhwylder a'ch triniaeth
- Gadael i chi wybod am wasanaethau yn eich ardal a allai roi gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol
- Cyfathrebu â'r gweithwyr gofal iechyd yn yr ysbyty a'r gymuned sy'n ymwneud â'ch gofal, yn cynnwys pan fydd cynlluniau'n cael eu gwneud i'ch rhyddhau o'r ysbyty.



Paper copies of this document should be kept to a mimimum and checks made with the electronic version to ensure that the printed version is the most recent.

Tŷ Olwen

**Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

## Beth i'w ddisgwyl gennym ni

Bydd ein cyfarfod cyntaf yn canolbwyntio ar eich teimladau a'ch pryderon. Yn ystod eich cyfnod yn yr ysbyty, gallwch gyfarfod â gwahanol aelodau o'n tîm. Byddwn yn gweithio gyda'r meddygon a'r nyrsys ar y ward i geisio creu cynllun sy'n canolbwyntio ar eich blaenoriaethau chi.

## Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gadael yr ysbyty?

Unwaith y byddwch yn gadael yr ysbyty bydd eich gofal yn cael ei oruchwylio gan eich meddyg teulu a'r tîm gofal iechyd sylfaenol. Mewn rhai amgylchiadau, a gyda'ch cytundeb, efallai y byddwn yn eich cyfeirio at y Tîm Gofal Lliniarol Cymunedol.

## Cynllunio ymlaen llaw

Mae "cynllunio gofal ymlaen llaw" yn golygu'r broses o drafod rhyngddoch chi a'r rhai sy'n bwysig i chi, er mwyn iddynt ddeall eich gwerthoedd personol, eich nodau ar gyfer eich bywyd a'ch dewisiadau o ran gofal meddygol yn y dyfodol. Gall cynllunio ar gyfer y dyfodol sicrhau eich bod yn cael y gofal sydd ei angen arnoch a'ch helpu i deimlo bod gennych fwy o reolaeth dros eich bywyd. Mae gwybod am eich dymuniadau'n gallu ei gwneud yn haws i'ch teulu wneud dewisiadau pan efallai na fyddwch chi'n gallu gwneud y penderfyniadau eich hun. Hyd yn oed pan fyddwch chi'n cynllunio'n ofalus, gallwch addasu eich cynlluniau os byddwch yn newid eich meddwl yn nes ymlaen.



Paper copies of this document should be kept to a mimimum and checks made with the electronic version to ensure that the printed version is the most recent.

# Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai

Mae cynllunio gofal ymlaen llaw yn broses gwbl wirfoddol. Os byddwch chi am ein cymorth ni neu am fwy o wybodaeth am hyn, gadewch i ni wybod.

## Rhai pethau y gallech chi fod eisiau eu hystyried

- Dweud wrth bobl am eich dymuniadau o ran eich gofal, a rhoi'r rhain ar bapur
- Materion ymarferol yn ymwneud ag anifeiliaid anwes, arian, gwneud ewyllys, rhoi trefn ar bethau, a chynlluniau angladdol
- Lle yr hoffech chi dderbyn gofal ar ddiwedd eich bywyd
- Creu atwrneiaeth arhosol
- Gwneud penderfyniad o flaen llaw i wrthod triniaeth
- Anghenion crefyddol neu ysbrydol y dylai eraill fod yn ymwybodol ohonynt
- Eich dymuniadau o ran rhoi organau a meinweoedd

## Sut i gysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn isod. Sylwch fod yna beiriant ateb ac efallai y gofynnir i chi adael neges. Yn yr achos hwn, byddwn yn dychwelyd eich galwad cyn gynted ag y bo modd, ond efallai na fydd hyn ar yr un diwrnod.



Paper copies of this document should be kept to a mimimum and checks made with the electronic version to ensure that the printed version is the most recent.

Tŷ Olwen

# Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

## Tîm Abertawe

Ffôn: 01792 703412

8.30yb i 4.30yp Llun i Gwener

## Tîm Castell-nedd Port Talbot

Ffôn: 01639 862549

8.30yb i 4.30yp Llun i Gwener

Y tu allan i'r oriau hyn, gall y tîm meddygol sy'n gyfrifol am eich gofal gysylltu â'r tîm gofal lliniarol sydd ar ddyletswydd os bydd angen cymorth arbenigol.

## Cwestiynau a sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi sydd wedi'i theilwra ar gyfer eich anghenion. Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau am ein gwasanaeth. Gallwch siarad ag aelod o'r tîm yn bersonol, neu gallwch ysgrifennu at:

Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai, Tŷ Olwen, Gwasanaeth Gofal Lliniarol Arbenigol, Heol Maes Eglwys, Abertawe, SA6 6NL.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen adborth er mwyn dysgu mwy am eich profiad o'n gwasanaeth.



Paper copies of this document should be kept to a mimimum and checks made with the electronic version to ensure that the printed version is the most recent.

**Tîm Gofal Lliniarol yr Ysbytai**

## Gwybodaeth a chefnogaeth bellach

### Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael os hoffech siarad â rhywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal.

Ffôn: 01792 531275

Ebost: ABM.MorristonPALS@wales.nhs.uk

Dylech fod yn ymwybodol bod eich cofnodion yn cael eu cadw'n electronig at ddibenion clinigol. Dylech sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd gennym yn cael ei chwmpasu gan Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan a Gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd.

Bwrdd Golygyddol: 1021
Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2019
Fersiwn: 1
Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2021
Awdur: Ceri Gimblett



Paper copies of this document should be kept to a mimimum and checks made with the electronic version to ensure that the printed version is the most recent.

COIN clinical online information network

## Swansea Bay University Health Board

## Authorisation Form for Publication onto COIN

**PLEASE ENSURE THAT ALL QUESTIONS ARE ANSWERED – IF NOT APPLICABLE PLEASE PUT N/A**

| | |
|---|---|
| COIN ID. | CID3428 (a&b) |
| Title. | Ty Olwen Hospital Specialist Pallative Care Team – Information for Patients and Relatives Leaflet (Welsh & English) |
| Name and Signature of Author/Chair of Group or Committee. | Hospital Specialist Palliative Care Clinical Service Group |
| Name and Signature of Lead Pharmacist. | N/A |
| Please specify whether the document is New, Revised or a Review of a previous version. | New |
| Please specify the section on COIN where you wish the document to be published. | Palliative Care, Patient /Carer Information |
| Please sign to confirm that the document has been authorised by an approved governance process in a specialty or delivery unit. | Debra Shreeve , CNS, Palliative Care |
| Has NICE guidance been considered/referenced when producing this guidance? If yes, please state the title or reference number. | N/A |
| Is the document relevant to the GP Portal? | No |
| Equality Statement (Mandatory for Policies). (1) | N/A |
| Please specify keywords to assist with searching. (2) | Palliative care, Leaflet |
| Published. | July 2020 |
| Last Review. | N/A |
| Next Review/Expiry Date. | July 2022 |

(1) All policies need to comply with the Policy for the production, consultation, approval, publication and dissemination of strategies, policies, protocols, procedures and guidelines

(2) Relevant keywords will assist COIN users with searching for documents.